

Nos Wener 15 Tachwedd

# Dathlu enillwyr yn seremoni fawreddog newydd Gwobrau Elusennau Cymru

Cynhaliwyd noson Gwobrau Elusennau Cymru heno (15 Tachwedd) mewn seremoni fawreddog yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Teithiodd enwebeion y deg categori o bob cwr o Gymru i gael bod yn y seremoni, lle'u clodforwyd am y gwahaniaeth cadarnhaol maent wedi'i wneud yn eu cymunedau, i Gymru a'r tu hwnt. Cynigiwyd llwnc destun i'r enillwyr am eu cyflawniadau eithriadol ym mhob categori, ac roedd cymeradwyaeth a chlod mawr i'w clywed.

Meddai Ruth Marks, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a oedd yn trefnu Gwobrau Elusennau Cymru: 'Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru'n falch iawn o allu tynnu sylw at waith gwirfoddolwyr a sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae pob enwebai ac enillydd wedi gosod safon canmoladwy o ragoriaeth, ac fel panel o feirniaid roedden ni'n rhyfeddu at eu hymroddiad a'u hangerdd tuag at y gwaith maent yn ei wneud i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau miloedd o bobl.

Wrth drafod y seremoni ei hun, meddai: 'Mae noson gyntaf erioed Gwobrau Elusennau Cymru wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac roedden ni wrth ein boddau o weld y derbyniad iddi gan y sector. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb!'

Rhoddyd y wobr boblogaidd ar gyfer **Gwirfoddolwr y Flwyddyn** i **Momena Ali**, sylfaenydd a llywydd ymroddedig EYST Cymru, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, ac sy'n darparu gwasanaeth cymorth cyfannol a sensitif i ddiwylliant i bobl ifanc duon ac o leiafrifoedd ethnig rhwng 11 a 25 oed.

Yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf, mae Momena Ali wedi bod yn hollol ganolog i'r elusen, gan roi miloedd o oriau o'i hamser, yn tywys ac yn llywio'r staff a'r bwrdd o ymddiriedolwyr i dyfu ac i ddatblygu EYST i greu'r sefydliad ffyniannus sy'n bodoli heddiw.

**Meddai Momena Ali:** 'Mae EYST yn sefydliad hyfryd, ac rydw i'n falch iawn o fod yn rhan o'i deulu. Mae ganddon ni i gyd gyfrifoldeb i'n cymuned, ac mae gwirfoddoli yn rhoi cymaint o foddhad i fi y galla i ddweud â llaw ar fy nghalon ei fod wedi bod yn bleser.'

**Dyfarnwyd gwobr Sefydliad y Flwyddyn** i sefydliad hollol wirfoddol, **Beiciau Gwaed**, sy'n darparu gwasanaeth cludo am ddim i'r gwasanaeth iechyd, yn darparu cyflenwadau gwaed, plasma, llaeth o'r fron, dogfennau ac eitemau hanfodol eraill ar hyd a lled y wlad. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim ac yn gweithredu bob diwrnod o'r flwyddyn, gan gynnwys gwyliau'r banc a Dydd Nadolig.

**Meddai Cadeirydd Beiciau Gwaed, Nigel Ward:** 'Mae ein gwirfoddolwyr yn anhygoel, ac rwy'n gwybod bod staff y gwasanaeth iechyd ar hyd y wlad yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr. Bydd ennill y wobwr hon yn codi proffil yr elusen, ac yn ein hysbrydoli i dyfu ac i wella fwy fyth yn 2020.'

**Diabetes UK Cymru** enillodd y wobwr **Sbarduno Newid** am eu gwaith ymgyrchu grymus ac egniol, gan gynnwys yr ymgyrch 'Know Type 1' gyda'r teulu Baldwin o Gaerdydd, y bu i'w mab, Peter, farw yn 13 oed o diabetes Math 1 a oedd heb gael diagnosis.

**Meddai Sally Taylor-Goodwin, Rheolwr Cyfathrebu Diabetes UK Cymru:** 'Mae "Know Type 1" wedi cael effaith uniongyrchol ar ymwybyddiaeth pobl o'r symptomau, a daeth dwy fam aton ni yn uniongyrchol yn diolch i'r teulu Baldwin a'r ymgyrch am ddiagnosis diogel eu plant. Mae ein hymgyrch yn parhau, ac mae'n ffrainc cael gweithio gyda'r teulu Baldwin i helpu i greu gwaddol i'w mab, Peter; dydy'r gwaith ddim yn stopio fan hyn.'

Ynghyd â chyhoeddi'r enillwyr, fe ddatgelodd y seremoni wobrwyo enillydd Gwobr y Trydydd Sector, a bydd yr enillwyr, **Cerebra** yn cael gwerth £10,000 o waith cynhyrchu fideo

ac ymgyrchu. Mae'r wobwr yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r cwmni cynhyrchu o Gaerdydd, Rockadove, a fydd yn gweithio gyda'r elusen i hyrwyddo ei gwaith yn cefnogi teuluoedd ledled Prydain sydd â phlant â chyflwr yr ymennydd.

Mae'r rhestr lawn o enillwyr i'w gweld isod, a thrwy [gwobrauelusennau.cymru](http://gwobrauelusennau.cymru). Bydd y dyddiad cau enwebu ar gyfer Gwobrau Elusennau Cymru flwyddyn nesaf yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

ENWEBAI	LLEOLIAD
<b>Gwobr Sbarduno Newid (noddwyd gan designdough)</b>	
ENILLYDD - Diabetes UK Cymru	Cenedlaethol
Rhestr Fer - Fair Treatment for the Women of Wales	Cenedlaethol
Rhestr Fer - Cwpan y Byd Digartref Caerdydd 2019	Caerdydd
<b>Gwobr Ymddiriedolwyr Rhagorol (noddwyd gan Hugh James)</b>	
ENILLYDD - Bwrdd Ymddiriedolwyr Neuro Therapy Centre	Gogledd Cymru (Sir y Fflint)
Rhestr Fer - Antur Waunfawr	Gogledd Cymru
Rhestr Fer - Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan	De Cymru (Rhondda Cynon Taf)
<b>Gwobr am Ddefnydd Gorau o'r Gymraeg (noddwyd gan Ateb)</b>	
ENILLYDD - Y Bartneriaeth Awyr Agored	Cenedlaethol (Gogledd Cymru)
Rhestr Fer - Clwb Gemau Fideo Menter Caerffili	Caerffili
Rhestr Fer - Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched	Cenedlaethol
<b>Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn (noddwyd gan Keegan &amp; Pennykid)</b>	
ENILLYDD - Momena Ali	Cenedlaethol (Abertawe)
Rhestr Fer - Elizabeth Williams	De Cymru (Rhondda Cynon Taf)
Rhestr Fer - Katie Clark	Bro Morgannwg
<b>Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn (noddwyd gan Rockadove)</b>	
ENILLYDD - Laura Ann Moulding	Cenedlaethol (Caerdydd)

<b>Rhestr Fer</b> - Bethany Burrell	Gogledd Cymru (Gwynedd)
<b>Rhestr Fer</b> - Catrin Sian Davies	Abertawe
<b>Gwobr Elusen Ffyniannus (noddwyd gan Impact Innovation)</b>	
<b>ENILLYDD</b> - ACE (Action in Caerau and Ely)	Caerdydd
<b>Rhestr Fer</b> - Cymdeithas Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin	Sir Gaerfyrddin
<b>Rhestr Fer</b> - Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon	Rhondda Cynon Taf
<b>Gwobr Cynnwys y Gymuned (noddwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)</b>	
<b>ENILLYDD</b> - Mal's Marauders Men's Health	De Cymru (Port Talbot)
<b>Rhestr Fer</b> - Sight life (Sefydliad y Deillion Caerdydd gynt)	De Cymru (Caerdydd)
<b>Rhestr Fer</b> - Y Bartneriaeth Awyr Agored	Cenedlaethol (Gogledd Cymru)
<b>Gwobr Tîm Gwirfoddoli y Flwyddyn (noddwyd gan Print Sauce)</b>	
<b>ENILLYDD</b> - Tîm Achub Mynydd Canol y Bannau	Pen-y-bont ar Ogwr
<b>Rhestr Fer</b> - Community Furniture Aid	Pen-y-bont ar Ogwr
<b>Rhestr Fer</b> - Hear to Help Powys	Powys
<b>Gwobr Mudiad y Flwyddyn (noddwyd gan Class Networks)</b>	
<b>ENILLYDD</b> - Beiciau Gwaed Cymru	Cenedlaethol
<b>Rhestr Fer</b> - ACE (Action in Caerau and Ely)	Caerdydd
<b>Rhestr Fer</b> - Mudiad Meithrin	Cenedlaethol
<b>Rhestr Fer</b> - Cerddoriaeth mewn Ysbytai a Gofal	Cenedlaethol
<b>Rhestr Fer</b> - Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George	Merthyr Tudful
<b>Rhestr Fer</b> - St John Cymru	Cenedlaethol

\_\_\_DIWEDD\_\_\_

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Simon Dowling  
drwy ffonio 07796115762

### Nodiadau i olygyddion

- Mae holl aelodau'r panel beirniadu wedi'u rhestru isod:
  - Ruth Marks, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Cadeirydd y panel)

- Mike Lewis, Rheolwr Grant Cymru, Sefydliad Banc Lloyds
- Jonathan Levy, Cyfarwyddwr Rheoli, Class Networks
- John Rose, Cyfarwyddwr Cymru Dros Dro, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Joe Brown, Sylfaenydd-Gyfarwyddwr, designdough
- Catrin Pascoe, Golygydd, Western Mail
- Mrs Margaret Thorne CBE DL, Is-Lywydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Rachal Minchinton, Cadeirydd, Sefydliad Codi Arian Cymru
- Tahirah Ali, Llysgennad #iWill Ieuenctid Cymru
- Llinos Iorwerth, Cyfarwyddwr, Ateb
- Ashok Ahir, Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod
- David Notley, Impact Innovation
- Lisa Morgan, Partner, Hugh James
- **Mae'r holl fanylion ar gael yma:** <https://gwobrauelusennau.cymru/>
- Copïau am ddim o luniau o'r noson ar gael yma: <https://we.tl/t-SH89lvOCpb>. Bydd lluniau o'r ymgeiswyr unigol ar gael maes o law, cysylltwch â Simon Dowling drwy 07796115762
- Gallwn ddarparu stori gefndirol i bob enillydd ac enwebai – cysylltwch â ni a gallwn ddarparu'r manylion llawn, ynghyd â chopi o luniau.
- Dechreuodd y cyfnod enwebu ar 5 Awst tan 2 Hydref, a chyhoeddwyd y rhestr fer yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Hydref, a chynhaliwyd y seremoni wobrwyo ar 15 Tachwedd.
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein bwriad yw galluogi sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.
- I gael rhagor o wybodaeth am Rockadove a Gwobr y Trydydd Sector, ewch i [www.rockadove.co.uk](http://www.rockadove.co.uk) ac i gael rhagor o fanylion am waith Cerebra, ewch i [www.cerebra.org.uk](http://www.cerebra.org.uk)

*Er mwyn hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a darparu newyddion perthnasol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gysylltiadau'r wasg, cedwir eich gwybodaeth yn ein cronfa ddata. Darllenwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#), sydd ar gael ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er mwyn canfod sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy sydd â mynediad ati, ar ba sail gyfreithiol y cedwir eich gwybodaeth, a'ch hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth.*

**Swyddfa Gofrestredig - Prif Swyddfa:** Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH  
(Mae swyddfeydd gennym yn Aberystwyth a'r Rhyl hefyd)

**Ffôn:** 0300 111 0124

**E-bost:** [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Elusen gofrestredig 218093  
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299  
Cofrestrwyd yng Nghymru